

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN NEUADD YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, NOS LUN, TACHWEDD 28ain, 2022

PRESENNOL

Cyng. John Owen (Cadeirydd), Cyng. Hefin Martin, Cyng. Eifion Williams, Cyng. Dylan Jones
Cyng. Anwen Jones, Cyng Nerys Dobson, Delyth Algieri (clerc).
Cyng Arron Wynne(Cynghorydd Sir)

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Arwel Ll Jones, Cyng. Alun Morris, Cyng Nia Clwyd(Cynghorydd Sir)

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod.

CADARNHAU'R COFNODION

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar Hydref, 31ain, 2022.

1.MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF

1.1 LLINELLAU MELYN GYFERBYN AC YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, Ffordd TYRPEG UCHAF

Y Cyngor yn dal i fonitro'r cerbydau sydd yn parcio ar y llinellau melyn gyferbyn ac Ysgol Llanddaged.

1.2. CAIS GRANT' DATBLYGU GWLEDIG CONWY'

Nododd y Cadeirydd bod Mr Elwyn Williams wedi cwblhau'r gwaith o osod y concrit slab yn barod ar gyfer y byrddau picnic yng nghae chwarae Cae Cety'n Llanddaged a bydd y byrddau picnic yn cael eu gosod yno yn y dyfodol agos.

1.3 COEDEN NADOLIG

Cadarnhawyd fod y Goeden Nadolig yn cael ei gosod yr wythnos gyntaf yn fis Rhagfyr a bydd disgyblion yr ysgol yn cymryd rhan i oleuo'r goeden.

1.4 LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 21 NANT, PONT Y CROES Ffordd TRWYN SWCH, LLANDDOGED

Dim diweddariad ynglŷn ar Llwybr cyhoeddus rhif 21 Nant Pont y Croes, Llanddaged.

1.5. CYNNAL A CHADW O'R CYFARFOD DIWETHAF

a) Cyhoeddodd Cyng. Hefin Martin fod yr arwyddion 'Anaddas i Gerbydau Trwm' wrth Groesffordd Pen Bryn Bach Llanddaged a chroesffordd y ffordd sydd yn mynd i lawr at yr Abbey wrth y maes parcio Cadair Ifan Goch wedi cael ei gosod gan y Cyngor Sir Conwy

2. CYNLLUNIO

2.1 Cyfeirnod 0/50182 Mr C Evans, Bryn Morfydd Mawr, Llanddaged

Amrywio amod rhif 3 a chael gwared ar amod rhif 4 caniatâd cynllunio 0/28308 (Newid defnydd o swyddfa er mwyn darparu llety byw i'r rheolwr)

Trafodwyd y cais cynllunio uchod a phasiwyd fod aelodau'r cyngor angen rhagor o wybodaeth am yr amod rhif 3 a rhif 4 cyn dod i benderfyniad ar y cais. Y clerc i gysylltu gyda'r adran cynllunio i gael y wybodaeth ac anfon y gwybodaeth yma ymlaen drwy e-bost i aelodau'r cyngor.

3. PRAESEPT 2023/2024

Rhannwyd y clerc amcangyfrif o gyllideb am y flwyddyn ariannol 2023/24. Penderfynwyd gadael y praesept fel ac y mae eleni sef £6500 a gweld at y flwyddyn canlynol os bydd angen ei godi pryd hynny.

4. Y GYLLIDEB

Cafwyd adolygiad o'r gyllideb yn erbyn yr incwm a'r gwariant gwirioneddol. Arwyddwyd y Cadeirydd y gyfriflen banc yn ôl yr arfer a chadarnhawyd fod dim cymhlethdod yn codi o'r gyllideb.

5. UNRHYW FATER ARALL

5.1. ARGLAWDD TAN LAN

Derbyniwyd cylchlythyr cymunedol gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn ac edrych ar opsiynau i reoli'r perygl llifogydd hirdymor ar gyfer Tan Lan Llanddoged a'r cymunedau cyfagos yn fwy effeithiol mewn modd cynaliadwy. Bydd dau sesiwn o ddigwyddiad galw heibio yn cael ei gynnal ar y 30ain Tachwedd a Rhagfyr y 1af 2022 yn Llyfrgell Llanrwst. Cyfoeth Naturiol Cymru yn awyddus i rannu eu canfyddiadau o'r model sylfaenol afonol diweddaraf gyda'r gymuned, ynghyd a'r rhestr hir o opsiynau sy'n cael eu datblygu, ac maent yn croesawu adborth ar y rhain.

5.2 CAIS ARIANNOL

Trafodwyd y cais ariannol gan 'Dawns i Bawb' a phenderfynwyd drwy aelodau'r cyngor godi eu dwylo i adael y cais ar y bwrdd.

6. CYNNAL A CHADW

a) Angen 'sweeper' i fyny allt Penllan Llanddoged ac allt yr Abbey Maenan.